# Awtistiaeth mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysg yn Sir Fynwy

## Cefndir a throsolwg o'r prosiect

Ym mis Medi 2022 comisiynodd Sir Fynwy yr Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth (AET) i ddylunio a chyflwyno rhaglen a fydd yn gwella addysg i blant a phobl ifanc awtistig yn y sir. Mae hyn yn cyfrannu at ein nod o ddatblygu system addysgol wirioneddol gynhwysol yn Sir Fynwy.

I gydnabod y niferoedd cynyddol o ddysgwyr awtistig yn ein system addysgol, yn y brif ffrwd ac yn ein Canolfannau Adnoddau Arbenigol (SRBs) bu i ni gomisiynu'r prosiect partneriaeth hwn i'n helpu i symud tuag at ein cyd-nod, fel yr amlinellir yn y Cod ADY, sef bod '*pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn addysg, elwa ohono a mwynhau'.*

Er mwyn cyflawni hyn, tra'n glynu at ein cred y dylai plant a phobl ifanc Sir Fynwy allu aros mewn lleoliadau, ysgolion a chymunedau o fewn Sir Fynwy, rydym yn sylweddoli fod angen gweithlu sydd â sgiliau datblygedig, sy'n hyderus ac sy'n gallu diwallu yr ystod o anghenion sydd gan blant a phobl ifanc awtistig, a'u teuluoedd.

Ers iddo gael ei lansio, mae'r prosiect hwn wedi cael ei arwain gan Grŵp Llywio, ac ymysg yr aelodau mae staff awdurdodau lleol, ymarferwyr addysg a rhieni a gofalwyr. Mae eu harbenigedd a'u profiad bywyd wedi siapio'r ffordd y caiff y rhaglen hon ei dylunio a'i chyflwyno yn Sir Fynwy, a bydd yn parhau i wneud hynny.

**Ein gweledigaeth:** Bydd pob plentyn a pherson ifanc awtistig yn Sir Fynwy yn cael addysg gadarnhaol a chynhwysol sy'n cefnogi eu lles ac yn rhoi cyfle cyfartal iddynt. Mae gan rieni a gofalwyr pobl ifanc awtistig brofiad cadarnhaol a chydweithredol o leoliadau addysg sy'n cefnogi ac yn gwella eu lles.

**Nod y prosiect:** Datblygu gweithlu addysg sy'n fedrus ac sy'n cael ei gefnogi, sy'n meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i weithio'n effeithiol gyda phob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys pobl ifanc awtistig, drwy:

- ✓ Uwchsgilio'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol fel canolfannau rhagoriaeth ar gyfer awtistiaeth
- ✓ Creu model Hyrwyddwr Awtistiaeth sy'n ychwanegu capasiti ac yn gyrru'r newid sydd ei angen ar draws lleoliadau arbenigol yn ogystal â lleoliadau prif ffrwd
- ✓ Creu gallu mewn lleoliadau prif ffrwd drwy ddatblygu a chyflwyno deunyddiau ac adnoddau hyfforddi Sir Fynwy gan ddefnyddio dulliau'r AET

## Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn?

**Uwchsgilio Canolfannau Adnoddau Arbenigol:**

- Mae cwrs hyfforddi undydd wedi ei gynnal ym mhob SRB sy'n seiliedig ar adborth o ddadansoddiad o anghenion hyfforddi ac ymweliadau.
- Mae holl staff yr SRB wedi cwblhau sesiynau hyfforddi gyda'r hwyr pellach ar anghenion cyfathrebu, merched awtistig, anghenion synhwyraidd, a phryder a gofid.

**Creu model Hyrwyddwr Awtistiaeth:**

- Mae gweithgor o weithwyr proffesiynol yn Sir Fynwy wedi creu model ar gyfer Hyrwyddwyr Awtistiaeth sy'n cwmpasu eu rôl a'u cyfrifoldebau ac mae'r model hwn wedi'i brofi gyda Chydlynwyr ADY.
- Yn y pen draw, bydd gan bob ysgol gynradd ac uwchradd, a chlystyrau o leoliadau Blynyddoedd Cynnar, Hyrwyddwr Awtistiaeth a fydd yn arwain gwelliannau o ran arferion awtistiaeth da.

**Creu gallu mewn lleoliadau prif ffrwd:**

- Bu ymgynghoriad, gan ddefnyddio arolygon a chyfweliadau gydag ymarferwyr, ar y deunyddiau AET sydd eu hangen ar gyfer Sir Fynwy.
- Mae deunyddiau AET arbennig ar gyfer Sir Fynwy, yn Gymraeg ac yn Saesneg, wedi cael eu hysgrifennu a byddant yn cael eu hadolygu gan y Grŵp Cyfeirio Arbenigol (ERG).

    - Mae’r rhain yn cynnwys fframweithiau ar gyfer safonau a chymwyseddau ar draws lleoliadau Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion, a deunyddiau hyfforddi a fydd yn cael eu cyflwyno gan dîm yn Sir Fynwy.
- Mae'r ERG yn cynnwys gweithwyr proffesiynol, pobl awtistig, a rhieni a gofalwyr, o bob rhan o Sir Fynwy a Chymru gyfan.
- Mae paneli o bobl ifanc awtistig o ysgolion uwchradd Sir Fynwy wedi cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod eu profiad bywyd a'u harbenigedd wrth galon y rhaglen.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

- Bydd tîm hyfforddi AET Sir Fynwy a Hyrwyddwyr Awtistiaeth yn cael eu nodi, eu hanwytho a'u hyfforddi.
    - Bydd y tîm hyfforddi’n cynnwys staff o'r Tîm Darpariaeth ac Allgymorth Arbenigol gan gynnwys rhai o'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Tîm Cymorth Addysg a’r Canolfannau Adnoddau Arbenigol.
- Gyda'i gilydd, byddant yn darparu ac yn ymgorffori deunyddiau AET penodol ar gyfer Sir Fynwy ar draws ysgolion a lleoliadau i feithrin gallu a gwybodaeth.

## Sut fydd hyn yn gweithio?

Bydd Rhaglen AET Sir Fynwy yn rhoi dull ysgol a lleoliad gyfan ar waith ar gyfer ymgorffori arferion awtistiaeth da o fis Medi 2024 ymlaen.

Bydd tri maes allweddol o fewn y rhaglen:

1. gwreiddio llais plant a phobl ifanc,
2. darparu hyfforddiant o ansawdd uchel,
3. a gweithio gyda Hyrwyddwyr Awtistiaeth i feithrin gallu ymhlith yr holl staff.

Golyga hyn y bydd staff o ysgol neu leoliad eich plentyn yn mynychu sesiynau hyfforddi gan aelodau o dîm AET Sir Fynwy. Byddant hefyd yn gweithio drwy unedau er mwyn sicrhau fod arfer gorau ar waith o ran cefnogi disgyblion awtistig. Bydd hyn yn cael ei wneud gydag arweiniad Hyrwyddwr Awtistiaeth ar gyfer eu hysgol neu eu lleoliad.

Mae'r sesiynau hyfforddi a'r unedau hyn wedi'u hadeiladu o amgylch egwyddorion arfer arferion awtistiaeth da yr AET. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u datblygu ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol fel canllaw i greu amgylcheddau addysgu strwythuredig, cyson sy'n parchu gwahaniaethau. Bydd yr egwyddorion a'r canllawiau cam wrth gam yn cael eu cyhoeddi yn Fframweithiau Safonau a Chymwyseddau’r AET ar gyfer Cymru.

Law yn llaw â chyflwyno’r rhaglen mewn ysgolion a lleoliadau, bydd sesiynau holi ac ateb ar gyfer rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnal yn 2024.

## Sut allwch chi gymryd rhan?

Fel rhiant neu ofalwr plentyn awtistig, hoffem weithio gyda chi i sicrhau bod eich profiad a'ch arbenigedd bywyd wrth wraidd y rhaglen.

Gallai hyn fod drwy:

- Lenwi arolwg dienw yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi a phrofiadau eich plentyn mewn addysg.
    - Blynyddoedd Cynnar neu Gynradd: https://surveys.clearoutcome.co.uk/s/XBFU4R/
    - Uwchradd: https://surveys.clearoutcome.co.uk/s/N8JX5M/
- Cymryd rhan neu gyfrannu at fideos a fydd yn llunio rhan o deunyddiau hyfforddi AET Sir Fynwy

**Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y fideos, anfonwch e-bost at:** Emily Niner, Rheolwr Prosiect: **Emily.niner@autismeducationtrust.org.uk**